

Comisiwn yr Eglwys Cyfamodol yng Nghymru Gweddïau ar gyfer Sul y Cyfamod, 11 Mehefin 2023

Gweddi o fawl ac addoliad

Yr ydym yma yn y lle hwn, i'th foli a'th addoli
I gynnig ein cariad, ein gobaith a'n llawenydd
I osod gerbron ein Brenin a'n Crist
Y cyfan yr ydym, a'r cyfan a'n tywysodd yma.

Canwn gân newydd, a bydded i'n bywydau fod yn alaw
Codwn lef, er mwyn peidio â theimlo cywilydd mwyach
Rydym yn cynnig ein geiriau, ein gweithredoedd a'n hanfod
Y cyfan yr ydym, a'r cyfan a'n tywysodd yma.

Fel y gwnaeth Abram a Sarai gynt
Bydded i ni adeiladu ein bwrdd, a chynnig ein bara
Fel Mathew a Paul, gadewch i ni godi a dilyn
Y cyfan yr ydym, a'r cyfan a'n tywysodd yma.

Caneuon y cyfamod, a ysgrifennwyd yn yr Ysgrythurau,
A wireddir yn y lle hwn, mewn gobaith ac mewn llawenydd
Cerddwn o'r lle hwn gyda'n Brenin a'n Crist
Y cyfan yr ydym, a'r cyfan a'n tywysodd yma.

Cyffes:

Am y pethau hynny rydyn ni wedi'u gwneud, na ddylem ni fod wedi eu gwneud,
A'r hyn na wnaethom, ond y dylem ni fod wedi eu gwneud,
Yr hyn oll yr ydym yn ymdrechu â nhw, er nad oes bai arnom am hynny
Cyffeswn i ti

Cyffeswn yn y Ffydd y gall pethau newid
Cyffeswn yn y Gobaith y gallwn gael ein newid
Cyffeswn mewn cariad tuag at y Duw sy'n gwired du gwyrthiau o'n mewn.

Gofynnwn am dy faddeuant, gofynnwn am dy gymorth, gofynnwn am dy iachâd.

Yn enw lesu, Amen

Y Colect:

Dduw sy'n cadw ei addewidion, sy'n gwired du yr hyn y mae'n ei addo,
Cerddia gyda ni wrth i ni barhau â'n taith a dod o hyd i ffyrdd newydd o fod yn hen eglwys.
Estyn dy law tuag atom, a'n harwain i ddod o hyd i'n lle yn dy deyrnas. Amen

Ymbiliau a Gweddiau o Ddiolchgarwch:

Ar Sul y cyfamod hwn, cofiwn am yr addewidion a wnaed gan bump enwad Cristnogol yng Nghymru i gyd-gerdded gyda'i gilydd, ochr yn ochr, er mwyn dod o hyd i ffyrdd newydd o gyd-gerdded fel cyfeillion ac o fod yn eglwys. Rhawn ddiolch am weledigaeth y rhai hirben a fu'n teithio o'n blaenau, yn ogystal â'r rhai sy'n parhau ar hyd y daith hon heddiw.

Deled dy Deyrnas

Gwneler dy ewyllys

Diolchwn am esiampl Abram a Sarai, Mathew a Paul, a ddilynodd y llwybrau yr oeddet ti wedi eu harwain atynt, heb wybod i ble y oeddent yn ei arwain, na'r heriau a fyddai yn eu hwynebu ar hyd y daith. Rhawn ddiolch i ti am ddilynwyr lesu heddiw, y mae eu hesiampl yn ein herio ni i fod yn well pobl Dduw.

Deled dy Deyrnas

Gwneler dy ewyllys

Gweddïwn dros y byd o'n cwmpas – i'r rhai sy'n eistedd mewn swyddfeydd, gweinyddwyr a chlercod, sy'n ceisio dy ddilyn. Gweddïwn am yr anhrefn a achosir gan newid hinsawdd, dros y gwledydd rheini sy'n wynebu dinistr a rhyfel, a'r rhai sy'n wynebu newyn a thrallod. Cynorthwya ni i fod yn ateb i weddi rhywun arall

Deled dy Deyrnas

Gwneler dy ewyllys

Gweddïwn dros y rhai agosaf atom, y rhai yr ydym yn eu caru a'r rhai nad ydym mor hoff ohonynt, am bob un sydd angen ein gweddiau ni a'th iachawdwriaeth di. [ychwanegwch weddiau addas i'ch cyd-destun lleol yma]

Deled dy Deyrnas

Gwneler dy ewyllys

Gweddïwn dros y rhai a fu farw. Cynorthwya ni i fyw ein bywydau mewn ffordd sy'n goffadwriaeth deilwng iddynt hwy.

Dduw trugarog, rhoi dy ras i ni, cryfha ein calonnau a'n heneidiau i fedru wynebu pa beth bynnag a ddaw ar hyd y daith. Amen

Commission of the Covenanted Churches in Wales

Prayers for Covenant Sunday, 11 June 2023

Prayer of praise and adoration

We are here in this place, to praise and adore you
To offer our love, our hope and our joy
To lay at the feet of the King and the Christ-child
All that we are, that has led us to here.

Sing a new song, let life be the melody
Lift our voice high, to no longer feel shame
To offer our words, our doings and beings
All that we are that has led us to here.

As Abram and Sarai did, oh so long ago
Let us build up our table, and offer our bread
As Matthew and Paul, let us pick up and follow
All that we are, that leads us from here

Songs of a covenant, written in scripture,
Lived out in this place, in hope and in joy
To walk from this place with the King and the Christ-child
All that you are that leads us from here.

Confession:

For those things that we have done, that we shouldn't,
That we haven't done and should,
That we're struggling with through no fault of our own
We offer our confession

A confession of Faith that things can change
A confession of Hope that we can be changed
A confession of Love for the God who works miracles within us.

We ask forgiveness, we ask for help, we ask for healing.

In Jesus' name, Amen

Collect:

God of promises kept, and promises to be fulfilled,
Walk with us as we journey and find new ways of being an old church.
Stretch out your hand, and guide us to find our place in your kingdom. Amen

Prayers of Intercession and Thanksgiving:

On this covenant Sunday, we remember the promises made by 5 denominations of Christians in Wales to walk together, alongside our friends to find new ways of being church. We give thanks for the vision and foresight of those that have journeyed before us, and for those that are travelling still.

Thy kingdom come

Thy will be done

We thank you for the example of Abram and Sarai, of Matthew and Paul, who set out to follow where you led them, not knowing where that would take them, the challenges they would face. We give thanks for modern day followers of Jesus, whose example challenges us to be God's better people.

Thy Kingdom come

Thy will be done

We pray for the world around us – for those sitting in offices, administrators and clerks, who seek to follow you. We pray for the chaos caused by climate change, for those countries that are facing devastation and war, for those facing famine and hunger. Help us to be the answer to someone else's prayer

Thy Kingdom come

Thy will be done

We pray for those near to us, those that we love and those that we loathe, for all need our prayers and your salvation. [insert local intentions here]

Thy Kingdom come

Thy will be done

We pray for those who have died, that the best memorial to them may be in the way we live our lives.

Merciful God, grant us grace, and strengthen our souls to face whatever comes our way.

Amen